

“GWEITHREDOEDD GAN DDUW” —SUT 'RYDYCH CHI'N EU HYSTYRIED NHW?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i weld (1) mai dyn yn aml sy'n achosi llawer o'r hyn a elwir yn weithredoedd gan Dduw neu'n eu gwneud yn waeth, (2) yr anwybydda dynion wir weithredoedd gan Dduw yn aml ar berygl iddynt eu hunain, (3) a'n bod ni'n wynebu'r weithred fwyaf gan Dduw yn holl hanes dyn

TRYCHINEBAU MYNYCH, ARWYDD YR AMSERAU (8 mun.)

Mae llawer yn teimlo fod mwy o drychinebau wedi bod yn ddiweddar, ac maen' nhw'n iawn

New Scientist (Hydref 5, 1991): “Gall y byd ddisgwyl rhagor o drychinebau yn y 1990au nag mewn degawdau a fu . . . Adroddwyd am 523 trychineb yn y 1960au a 767 yn y 1970au. Erbyn y 1980au, y cyfanswm oedd 1387”

1992 Britannica Book of the Year: “Yn [yr Unol Daleithiau] . . . saith trychineb ar hugain yn ystod y chwe mis cyntaf oedd y nifer mwyaf a gofnodwyd erioed cyn canol blwyddyn”

Mae'r cylchgrawn *Time* (Medi 14, 1992) yn adrodd i'r canlynol ddigwydd mewn cyfnod o fis (canol Awst i ganol Medi): llosgfynydd yn ffrwydro yn Alasga; daeargryn yn taro ger Ynysoedd Andreanof yn Alasga ac un arall yn Kyrgyzstan yn yr Undeb Sofietaidd gynt; curodd Corwynt Andrew ynysoedd Bahama, Florida, a Louisiana; trawodd Corwynt Iniki Kauai yn Hawaii; trochodd Storm Drofannol Polly ddwyrain Tsieina; Gyrwynt Omar yn ysgubo drwy Guam ac Ynysoedd y Philipinos; ysgubodd flachlifaadau drwy ddyffrynnoedd yr Hindu Kush; a thonnau llanw yn difrodi 200 milltir o arfordir yn Nicaragua

(Gallwch grybwyll unrhyw drychinebau cyfredol)

Mae pobl yn aml yn cyfeirio at ddigwyddiadau catastroffig o'r fath yn “weithredoedd gan Dduw”

Ers cyn cof, mae pobl wedi rhoi arwyddocad arbennig i ddigwyddiadau o'r fath, gan eu hystyried yn fynegiant o anfodlonrwydd a dicter Duw neu'n gosb ganddo

Yn Tsieina ystyrid nhw'n arwyddion anfodlonrwydd y nefoedd â'r llinach a deyrnasai ac yn argoelion terfysg gwleidyddol

Yn 1976 trawodd daeargryn o faint 7.8 Tangshan, gan ladd 240,000 o bobl, union chwe wythnos cyn marw'r cyn-gadeirydd Mao Tse-tung ac fe'i dehonglwyd gan rai yn argoel o'r nef yn arwyddo oes newydd yn hanes Tsieina

Felly, mae rhai yn anuniongyrchol yn beio Duw am yr anffodion hyn

Pan fo trychinebau yn taro, mae pobl yn aml yn gweiddi yn erbyn Duw

Ai Duw sy'n wir gyfrifol? Beth yw'ch agwedd chi at hyn?

ER BOD Y BEIBL YN EU RHAGFYNEGI NHW, NID GWEITHREDOEDD GAN DDUW MO'R TRYCHINEBAU (10 mun.)

Yn ei broffwydoliaeth fawr am “ddiwedd y byd,” soniodd Iesu am newyn, daeargrynfâu, a phlâu (Mth 24: 3, 7; Lc 21:11)

Rhagwelodd yr apostol Ioan newyn a phla marwol (Dat 6:5-8)

'Ydi hyn yn golygu fod Duw yn achosi digwyddiadau o'r fath? Nac ydi!

Gan ei fod yn hollwybodol, gall Jehofah ragweld canlyniad ymdrechion dynol amherffaith a mynegi'r canlyniadau ymlaen llaw (Eseia 42:9; 46:9, 10)

Canlyniad gweithredoedd dynion oedd llawer trychineb enbyd

(Defnyddiwch ddeunydd o *Awake!* Mehefin 22, 1986, tudalennau 17-19, fel bydd amser yn caniatáu, ond pwysleisiwch y tair agwedd ganlynol)

Mae dynion yn camarfer adnoddau naturiol ac yn camdrin yr amgylchfyd, gan ei gwneud yn fwy tebygol i drychinebau ddigwydd

Mae'r ffordd mae pobl yn byw yn eu gwneud nhw'n fwy agored i'w clwyfo pan fo trychinebau'n taro

Yn aml mae pobl yn anwybyddu rhybuddion, gan wneud y canlyniadau yn fwy difaol

Yn amlwg, mae bodau dynol wedi bod yn gyfrifol am drychinebau, gyda llawer iawn o golli bywyd ac eiddo

Nid Duw yw achos trallodion o'r fath

BETH YDI “GWEITHREDOEDD GAN DDUW”? (12 mun.)

Pam, felly, mae'r Beibl yn sôn am Dduw yn anfon llifddyfroedd, tân a brwmstan, ac yn y blaen, i ddifa'r rhai drwg?

Onid “gweithredoedd gan Dduw” oedd trychinebau o'r fath?

Fe ddywed *Encyclopedia Americana*, argraffiad 1991, Cyfrol 1, tudalen 122, “yn ôl y gyfraith, damwain sy'n codi o achos sy'n digwydd heb ymyrraeth neu gymorth gan ddyn,” yw'r ymadrodd “gweithred gan Dduw”

Fodd bynnag, nid damweiniau na chwaith bethau a fwriadwyd i achosi dioddef yn ddiwahân, oedd y digwyddiadau a gofnodwyd yn y Beibl

Mae holl wir weithredoedd gan Dduw yn gyfiawn ac yn llawn bwriad. (Deut 32:4; Eseia 55:10, 11) Rhaid iddynt:

- (1) Fod mewn harmoni â bwriad Duw
- (2) Gael eu rhagflaenu gan rybudd oddi wrth Dduw
- (3) Gynnwys cyfarwyddiadau dwyfol ynglŷn â sut i oroesi

Ystyriwch rai enghreifftiau o wir weithredoedd gan Dduw

Disgrifiwch Ddilyw oes Noa, gan egluro sut mae'n cyflawni'r tri maen prawf uchod (Gen 6:5–7:10; 2Pedr 2:5)

Disgrifiwch ddinistr Sodom a Gomorra, gan egluro sut yr oedd yn weithred gan Dduw (Gen 18:20–19:26; 2Pedr 2:6-8)

(Defnyddiwch y deunydd yn *Awake!* Awst 8, 1986, tudalennau 6-7)

Mae peidio â chydabod rhybudd yn golygu diwedd trychinebus (Ex 9:15-17; Lc 17:26-30)

Y MWYAF O'R GWEITHREDOEDD GAN DDUW ETO I DDOD I RAN Y DDYNOLIAETH (10 mun.)

Mae'r drychineb fwyaf erioed o'n blaen (Mth 24:21)

Bydd yn diweddu gydag Armagedon, “rhyfel ar ddydd mawr Duw, yr Hollalluog,” nid lladdfa niwclear nac unrhyw drychineb arall o waith dyn (Dat 16:14, 16)

Bydd yn ddetholus (2Thes 1:8-10)

Daw â diwedd ar y drefn hunanol, ddrwg, bresennol (2Pedr 3:9, 10)

Bydd “y gorthrymder mawr” yn weithred gan Dduw na fedrir ei chymharu ag unrhyw gyfyngder a fu erioed (Eseia 28:21)

Bydd yn weithred ddiamheuol gan Dduw am y bydd yn ateb gofynion yr holl feini prawf

- (1) Mae mewn harmoni â bwriad datgeledig Duw (Jer 25:31-33; Seff 3:8)
- (2) Rhoddir rhybudd ymlaen llaw yn fyd-eang (Mth 24:14; Act 20:20)
- (3) Darperir cyfarwyddiadau goroesi (Seff 2:3; In 17:3)

Mae dinistr digyffelyb yn sicr, eto mae goroesi yn bosib' (Seff 1:14–2:3)

Fel yn hanes yr Israeliaid ar drothwy Gwlad yr Addewid, chi biau dewis (Deut 30:15-20)

BENDITHION RHYFEDDOL WEITHREDOEDD GAN DDUW YN Y DYFODOL (5 mun.)

Wedi symud y drygionus ymaith, bydd heddwch llawn (Salm 37:10, 11; 72:7)

Dadwneir yr holl ddifrod a wnaeth y ddynoliaeth i'r ddaear (Eseia 35:1-7; 55:12, 13)

Rhoddir trefn ar dlodi, anghyfiawnderau economaidd a chymdeithasol (Salm 72:16; Eseia 65:21-24)

Sicrheir amodau heddychlon, teg a chyfiawn gan “sêl ARGLWYDD y Lluoedd” (Eseia 9:7)

Dyna fydd canlyniadau'r mwyaf rhyfeddol o weithredoedd gan Dduw er mwyn y ddynoliaeth

Medrwyd chi fwynhau'r bendithion os gwrandewch ar rybudd Duw 'nawr a gweithredu i oroesi (Mth 7: 24, 25)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)